

Gweithgaredd 1: Kindertransport a'r Plant a Ffodd i Gymru: Rhan 1 - Cefndir

Trawsgrifiad Fideo

Mary Hochberg – MH

Cyfwelydd - C

C – A glywsoch chi Hitler ar y radio?

MH – O do, o do a gwelais hyd yn oed rai o'r gorymdeithiau ar *Unter den Linden* ac ati.

C – Wnaethoch chi...Beth wnaeth hynny, beth oeddech chi'n ei feddwl pan welsoch chi'r bobl hyn yn eich strydoedd?

MH – Wel erbyn hynny roedden ni i gyd yn ymwybodol ohono, erbyn hynny roedden ni fwy neu lai wedi ein cau allan o weddill y boblogaeth. Rwy'n cofio ceisio cyrraedd y pwl nofio ond roedd arwydd yn dweud '*Juden Verboten*' [Iddewon wedi'u Gwahardd], nid yn unig dim croeso ond *Verboten*, rydym i gyd yn gwybod beth mae hynny'n ei olygu ac weithiau byddent yn ei gyplysu â *Juden, Zigeuner*, sef Sipsiwn ac weithiau hyd yn oed cŵn. Felly, byddech chi'n gweld y rhain y tu allan i byllau nofio fel y dywedais a hyd yn oed ar sinemâu, theatrau ac mewn parciau.

C - *Kristallnacht* - beth ydych chi'n ei gofio?

MH – Wel, gwelais ffenestri siop wedi'u torri a phaent ar waliau ac yn y blaen, a phobl dybiwn i. Doedd gen i ddim syniad beth oedd wedi digwydd oherwydd doedd dim synagog yn agos i [lle] roedden ni, ger ein tŷ ni a doedd dim tanau. Dydw i ddim yn cofio'n iawn beth ddigwyddodd yn yr ysgol, ond dwi'n gwybod bod fy nhad a chefnder oedd yn hŷn na fi wedi mynd i guddio; ac mewn gwirionedd, ni ddaeth allan o'r guddfan hyd Ionawr '39, pan adawodd y wlad.

Roedd amryw o gyfeillion yn dweud eu bod yn ceisio mynd allan ac roedd rhai yn gwneud trefniadau. Dwi'n cofio aethon ni i weld rhai o'n ffrindiau, a doedd neb yn agor y drws a phan ofynnwn ni i'r porthor yno, fe ddywedodd 'O do, fe adawon nhw neithiwr'.

C – Felly pan ddigwyddodd *Kristallnacht* yn '38, byddech chi wedi bod yn 13?

MH – Oeddwn

C – A chithau yn eich arddegau, beth oedd eich teimladau am yr hyn oedd yn digwydd?

MH – Wel erbyn hyn roedden ni'n gwybod llawer; roedd cyhoeddusrwydd o'n cwmpas ym mhobman a phropaganda casineb - gallech ei glywed ar y radio. Cafwyd areithiau, ym, y math o areithiau a wnaeth Hitler, neu Goebbels er enghraifft, bod yr Iddewon yn ryfelwyr oedd am gymryd drosodd y byd.

Wn i ddim sut y gwnaeth fy mam fy nghael i ar y Kindertransport yn y diwedd, mae'n rhaid ei bod wedi gwneud trefniadau neu mae'n rhaid ei bod wedi gwneud ymholiadau oherwydd gadawodd cefnder o'm blaen ond roedd yn beth anodd i'w wneud. Ac yn y diwedd fe es i ar y cludiant olaf ac mewn gwirionedd cefais arian ar gyfer y daith yn ôl rhag ofn na fyddem yn gallu croesi'r ffin yn yr Iseldiroedd.

